



Cynlluniau Achreu
Croeso Cymru

Y WEITHDREFN APELIO

Sut i apelio

O bryd i'w gilydd, ac ar ôl i fusnes gymryd rhan mewn un o gynlluniau achredu Croeso Cymru, efallai y bydd Croeso Cymru yn gwneud penderfyniad y bydd y busnes o bosibl am ei herio.

Er enghraifft, efallai y bydd busnes yn cael gradd sêr yn is na'r disgwyl neu bydd ei achrediad yn cael ei dynnu'n ôl yn gyfan gwbl sy'n golygu na fydd y busnes yn cael ei hyrwyddo gan Croeso Cymru.

Mae'n bosibl y bydd penderfyniadau o'r fath yn cael eu gwneud naill ai yn sgil ymweliad asesu arferol neu ymweliad sy'n deillio o gŵyn gan ymwelydd.

Rhoddir gwybod am y penderfyniadau hyn bob tro yn ysgrifenedig a bydd hawl gan y busnes i apelio yn eu herbyn. Yn achos penderfyniad y dylid tynnu cymeradwyaeth yn ôl neu ei gwrthod, ni fydd eich busnes yn cael ei hyrwyddo gan Croeso Cymru hyd nes bod canlyniad yr apêl yn hysbys.

Yn achos penderfyniad y dylid diwygio gradd sêr y busnes, bydd eich busnes yn dal i gael ei hyrwyddo ond ar lefel y radd ddiwygiedig.

Y llwybr anffurfiol

Dyma'r cam cyntaf a awgrymir:

Cysylltwch ag Adran Sicrhau Ansawdd Croeso Cymru o fewn 10 diwrnod gwaith o ddyddiad y llythyr cadarnhau gan y cwmni. Rhannwch eich pryderon â Croeso Cymru.

Bydd yn ymateb ichi o fewn 10 diwrnod gwaith, a bydd yn ceisio datrys y mater heb ymweld â'ch eiddo.

Os ystyrir bod angen ymweld â'ch eiddo, bydd angen dilyn y llwybr ffurfiol. Bydd yr Adran Sicrhau Ansawdd yn ysgrifennu atoch gan nodi canlyniad y llwybr anffurfiol.

Y llwybr ffurfiol

Rhaid i Croeso Cymru gael gwybod am yr apêl yn ysgrifenedig o fewn 21 o ddiwrnodau o hysbysiad swyddogol Croeso Cymru o'r penderfyniad. Yn achos sefydliad sydd wedi dilyn y llwybr 'anffurfiol' yn gyntaf, bydd y cyfnod o 21 o ddiwrnodau yn dechrau pan fydd y llythyr penderfyniad yn cael ei gyhoeddi gan y Rheolwr Datblygu Ansawdd Rhanbarthol.

Rhaid i'r hysbysiad ysgrifenedig o'r apêl gynnwys y canlynol:

- gwybodaeth gryno am y rheswm/sail dros apelio
- ffi'r apêl, sy'n cyd-fynd â ffi safonol Croeso Cymru ar gyfer y flwyddyn y gwneir yr apêl ynddi (caiff y ffi hon ei had-dalu os caiff yr apêl ei chadarnhau).

Bydd Croeso Cymru yn cydnabod bod yr apêl wedi dod i law ac yn gofyn i'r apelydd i gyflwyno'r achos yn ysgrifenedig o fewn 30 diwrnod o dderbyn yr apêl. Os nad yw'r achos yn dod i law, neu os caiff ei ystyried yn annilys (er enghraifft, os mai dim ond materion nad ydynt yn gysylltiedig â'r safonau ansawdd a drafodir), bydd yr apêl yn cael ei gwrthod.

Ar ôl cael yr holl ddogfennau a'r ffi, bydd Croeso Cymru yn trefnu bod y Rheolwr Datblygu Ansawdd Rhanbarthol yn ymweld â'r eiddo cyn gynted â phosibl. Bydd yn rhywun nad yw wedi chwarae rhan uniongyrchol yn y broses o asesu'r busnes. Efallai y bydd yn cyrraedd yn ddirybudd.

Bydd y swyddog yn llunio adroddiad a bydd copi ohono yn cael ei anfon at yr apelydd, ynghyd â'r penderfyniad. Ni fydd ôl-drafodaeth yn cael ei chynnal ar y safle na phenderfyniad yn cael ei wneud yn syth ar y diwrnod.

Os nad yw'r apelydd yn dal i fod yn fodlon, rhaid iddo gyflwyno ei achos yn ysgrifenedig o fewn 30 o ddiwrnodau pellach o ddyddiad y penderfyniad. Bydd y Pennaeth Gweithrediadau Datblygu Ansawdd yn ystyried pob adroddiad diweddar, ynghyd ag unrhyw gyflwyniadau ysgrifenedig pellach gan yr apelydd ac unrhyw dystion annibynnol. Os yw'n briodol, gall y Pennaeth Gweithrediadau Datblygu Ansawdd gysylltu â phartneriaid Safonau Cyffredin eraill y DU.

Bydd yr apêl yn cael ei gwrthod os nad yw'r achos yn cael ei gyflwyno'n ysgrifenedig i Croeso Cymru o fewn y cyfnod penodedig.

Pan fo apêl yn cael ei chadarnhau, bydd ffi'r apêl yn cael ei had-dalu. Pan fo apêl yn cael ei gwrthod, bydd ffi'r apêl yn cael ei chadw. Bydd Croeso Cymru yn rhoi gwybod yn swyddogol i'r apelydd yn ysgrifenedig am y penderfyniad o fewn 14 o ddiwrnodau o'r adeg y daw'r holl wybodaeth i law.

Caiff gweithredwr sefydliad y mae ei gymeradwyaeth wedi'i thynnu yn ôl wneud cais i'r sefydliad gael ei raddio eto ar ôl cyfnod o 12 mis o'r dyddiad y mae Croeso Cymru yn rhoi gwybod yn swyddogol i'r gweithredwr bod y gymeradwyaeth wedi'i thynnu yn ôl. Mewn achosion o'r fath, ni fydd cymeradwyaeth yn cael ei rhoi hyd nes bod ymweliad asesu pellach yn cadarnhau yr aethpwyd i'r afael â'r materion a oedd yn sail i Croeso Cymru dynnu ei gymeradwyaeth yn ôl. Codir tâl am yr ymweliad graddio hwn yn y ffordd arferol.

Dylid anfon apelau, ynghyd a'r ffi briodol (yn daladwy i Lywodraeth Cymru) i:

Yr Adran Sicrhau Ansawdd
Croeso Cymru
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion, SY23 3UR

Ffôn: 0845 010 8020



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adran Sicrhau Ansawdd
Croeso Cymru
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion, SY23 3UR

Ymholiadau ffôn: 0845 010 8020
Ffacs: 0300 062 2081
E-bost: quality.tourism@llyw.cymru